



Gwybodaeth i ymgeiswyr ar gyfer TAR Uwchradd Bioleg/Cemeg/Ffiseg gyda Gwyddoniaeth

Llongyfarchiadau!

Rydych wedi'ch gwahodd i gyfweiliad ar gyfer lle ar y rhaglen TAR Uwchradd Bioleg/Cemeg/Ffiseg gyda Gwyddoniaeth ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd – rydym yn edrych ymlaen yn fawr iawn i gael cwrdd â chi a chael clywed am yr hyn sydd gennych i'w gynnig yn ddarpar athro Bioleg/Cemeg/Ffiseg gyda Gwyddoniaeth uwchradd. Bydd y llythyr hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am yr hyn y gofynnir i chi ei wneud yn ystod diwrnod y cyfweiliad a bydd hefyd yn rhoi syniad clir i chi ynglŷn â'r hyn rydym yn chwilio amdano mewn darpar athro Bioleg/Cemeg/Ffiseg gyda Gwyddoniaeth. Mae wedi'i ddylunio i'ch helpu i baratoi yn unol â hynny, i chi fod â'r cyfle gorau posib i fod yn llwyddiannus.

Bydd tair rhan i'r broses gyfweld, a allai gael eu cynnal mewn trefn wahanol i'r un a nodir.

Rhan 1

Byddwch yn gwneud profion mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Bydd tasg ysgrifennu estynedig hefyd yn ymateb i erthygl ar bwnc addysgol; drwy hyn byddwn yn gallu asesu eich sgiliau darllen ac ysgrifennu. Byddwch yn derbyn yr erthygl cyn y diwrnod i chi gael paratoi, felly daliwch ar y cyfle i'w darllen yn drylwyr ac i ddeall y prif bwyntiau. Bydd y rhan hon o'r diwrnod yn para tua dwy awr.

Rhan 2

Byddwch yn cymryd rhan mewn trafodaeth grŵp ar y pwnc isod:

Cwestiwn: Beth yw'r cyfleoedd a'r heriau i athrawon Gwyddoniaeth yn yr 21^{ain} Ganrif?

Bydd angen i chi baratoi i gyfrannu i'r drafodaeth drwy ystyried goblygiadau *Dyfodol*

Llwyddiannus (2015) a Chwricwlwm newydd Cymru ar Wyddoniaeth, a'r mathau o sgiliau a rhinweddau rydych **chi'n** credu y dylem fod yn eu datblygu yn ein pobl ifanc, drwy addysg Gwyddoniaeth yn benodol ac yn y cwricwlwm newydd yn ehangach.

Byddwn yn chwilio am:

- Lefel dda o gyfranogiad yn y dasg;
- Cyfathrebu a rhyngweithio clir gydag eraill;
- Defnyddio'ch arbenigedd yn y pwnc i gynhyrchu a chynnal eich pwynt;
- Ymatebion effeithiol i gwestiynau a barn pobl eraill, datblygu syniadau yn ôl fel y bydd hynny'n briodol a/neu gwestiynu neu herio'r hyn a glywch ar sail rheswm a/neu dystiolaeth.

Bydd **Rhan 3** yn cynnwys cyfweiliad unigol byr pryd y gallwch esbonio eich cymhellion i ddod yn athro Bioleg/Cemeg/Ffiseg gyda Gwyddoniaeth uwchradd, a dangos faint rydych yn deall rôl yr athro mewn ysgol brif ffrwd. Cewch gyfle hefyd i ofyn cwestiynau i ni fel y gallwch wneud dewis gwybodus. Rydym am gael cyfle hefyd i sôn wrthyfych am ein prifysgol a'n

rhaglen TAR Uwchradd gan ein bod yn credu bod llawer gennym i'w gynnig i athro dan hyfforddiant sy'n llawn awydd a dyhead ac rydym yn teimlo'r un mor gyffrous â chithau ynglŷn â'ch dyfodol!

Edrychwn ymlaen i gael cwrdd â chi yn y cyfweiliad a dymunwn bob hwyl i chi ar y diwrnod. A wnewch chi gyrraedd 15 munud cyn yr amser a nodwyd er mwyn i ni gael dechrau'r rhaglen yn brydlon.

Dymuniadau gorau
Kin Yu & Bethan Jones
TAR Uwchradd Gwyddoniaeth
Prifysgol Metropolitan Caerdydd



Met Caerdydd yw'r darparwr TAR Uwchradd mwyaf yng Nghymru ac un o'r mwyaf yn y DU. Yn ogystal, mae'n un o 4 prifysgol yn unig i gael eu hachredu ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru o fis Medi 2019: <https://www.ewc.wales/site/index.php/en/ite-accreditation/providers-of-initial-teacher-education-in-wales-from-2019.html>

I gael rhagor o wybodaeth am ein cwrs, ewch i:
<http://www.cardiffmet.ac.uk/education/courses/Pages/Secondary-PGCE.aspx>

Arolwg Profiad a Addysgwyd Uwchraddedigion	Postgraduate Taught Experience Survey
Ansawdd y dysgu a'r addysgu - 90%	
Boddhad â'r cwrs - 92%	
Boddhad â'r lleoliadau ysgol - 98%	
Cyfradd lwyddo 100%	
Mae 95% o'n hathrawon dan hyfforddiant yn cael swydd yn y sector (Arolwg DHLE 16/17)	